CYMWYSTERAU CYMRU

Cylch Gorchwyl

Pwyllgor Adnoddau

Pwrpas

1. Bydd y Pwyllgor Adnoddau yn darparu fforwm ar gyfer y drafodaeth fanwl ar gynllunio ariannol a busnes a materion adnoddau dynol.

2. Y Bwrdd fydd yn diffinio ac yn cyfleu strategaeth a pholisi ariannol y sefydliad. Y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu fydd yn atebol am reolaeth ariannol y sefydliad. Bydd gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol gyfrifoldeb am gynllunio a gweithredu'r strategaeth a'r polisïau ariannol ac adnoddau dynol.

Rôl

3. Rôl y Pwyllgor Adnoddau yw cynghori'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar y canlynol:

    a. Goruchwylio'r gwaith o baratoi'r gyllideb flynyddol a'r cynllun busnes gan roi ystyriaeth ddyledus i'r defnydd strategol o adnoddau;
    b. Adolygu strategaeth, cynllunio a pholisi ariannol y sefydliad gan roi ystyriaeth ddyledus i'r defnydd strategol o adnoddau;
    c. Goruchwylio prosesau cynllunio'r gweithlu a rheolaethau ar gyfer y sefydliad: recriwtio, cadw, cynllunio ar gyfer olyniaeth a pholisïau rheoli perfformiad;
    d. Goruchwylio unrhyw newidiadau mawr yn y strwythurau buddion gweithwyr ledled y sefydliad;
    e. Cynghori'r Bwrdd ar weithgareddau buddsoddi a masnachol posibl, gan ystyried cynigion yn gynnar a naill ai cynghori neu ddarparu golwg ar gyfleoedd a allai fodoli;
    f. Sicrhau rheolaeth effeithiol ac effeithlon o asedau a gweithrediadau Cymwysterau Cymru
    g. Adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ffurfiol bob blwyddyn.

Awdurdod Dirprwyedig

4. Mae gan y Pwyllgor awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd i adolygu a chymeradwyo polisïau AD, ac eithrio unrhyw bolisïau sy'n dod o fewn cylch gwaith y Bwrdd neu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

5. Y Pwyllgor sydd i benderfynu ar unrhyw beth newydd, dadleuol neu o arwyddocâd cenedlaethol arbennig y mae angen i'r Bwrdd ei gymeradwyo a dylai hefyd adrodd arno i Lywodraeth Cymru.

Aelodaeth a Phresenoldeb

6. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys pedwar neu pum cyfarwyddwr anweithredol Bwrdd Cymwysterau Cymru a'r Prif Weithredwr.

7. Penodir aelodau'r Pwyllgor gan Gadeirydd y Bwrdd sy'n cadw'r hawl, o dan gynllun dirprwyo'r Bwrdd, i ychwanegu neu ddiswyddo aelodau i ddiwallu anghenion y sefydliad.

8. Dylai'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Adnoddau Corfforaethol fynychu'r pwyllgor ond ni fydd yn aelod o'r pwyllgor. Efallai y bydd yn ofynnol hefyd i aelodau eraill o staff neu ymwelwyr allanol fod yn bresennol o bryd i'w gilydd i gynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei ddyletswyddau.

9. Y **cworwm** ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Adnoddau fydd 3 aelod.

Cefnogaeth

10. Cefnogir y Pwyllgor gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a'r Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol, a fydd yn brif gyswllt i'r Pwyllgor â'r sefydliad, yn gweinyddu'r ysgrifenyddiaeth, yn hwyluso sefydlu'r Pwyllgor, ac yn darparu cyngor a gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd a rhyngddynt, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol yn cael eu gwneud ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol ac arbennig. Bydd y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn gweinyddu penodiadau newydd/ailbenodi holl aelodau Pwyllgor Cymwysterau Cymru ac unrhyw gynrychiolwyr allanol.

Modus Operandi

11. Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau fel y bo'n briodol, gan Gyfarwyddwr Gweithredol - Adnoddau Corfforaethol a Phenaethiaid Cyllid, AD a Llywodraethu Corfforaethol y sefydliad. Bydd yn adrodd i'r Bwrdd drwy ei gofnodion (a gyflwynir gan y Cadeirydd i'r Bwrdd), ac adroddiadau rheolaidd.

12. Fel arfer, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod 2-3 gwaith y flwyddyn mewn modd digon amserol i gydlynu a chyflawni ei fusnes. Gall y Pwyllgor weithredu a chwrdd tu allan i'r Pwyllgor ffurfiol lle bo hynny'n briodol i gyflawni ei fusnes.

13. Yn ystod ei gyfarfodydd, bydd yn archwilio:

    - Adroddiad ariannol y sefydliad;
    - Metrigau Adnoddau Dynol y sefydliad;
    - Cynnydd y sefydliad yn erbyn amcanion Cydraddoldeb Strategol;
    - Diweddariad cynnydd cynllun busnes y sefydliad, ac yn;
    - Derbyn diweddariadau perthnasol mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol strategol y sefydliad.